Y LLENG BRYDEINIG FRENHINOL

THE ROYAL BRITISH LEGION

1

2

3

4

5

1 Mae'r Lleng Brydeinig Brenhinol yn darparu Help a chefnogaeth i filwyr, byddin ferched a'u teuluoedd

2 Bob blwyddyn , mae'r Lleng yn dosbarthu Pabïau ar gyfer Dydd y Cofio, gan godi Arian hanfodol i gefnogi eu gwaith lles

3 Y Lleng Brydeinig Brenhinol yw'r ceidwad Cenedlaethol ar gyfer Cofio, gan amddiffyn y cof am bawb ymladdodd mewn rhyfeloedd neu effeithiwyd gan wrthdaro

4 Mae'r Lleng yn darparu gofal hanfodol i hen Filwyr ifanc, fel Mark Stonelake, anafwyd gan fom ochr y ffordd wrth wasanaethu yn Afghanistan

5 Mae cofio i bawb

Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Sefydlwyd y Lleng Brydeinig Frenhinol ym 1921, a chafodd ei ffurfio o nifer o sefydliadau cyn-filwyr. Darganfu llawer o'r dynion a ddychwelodd o'r rhyfel ym 1918 eu hunain mewn amgylchiadau anodd. Roedd llawer iawn o ddiweithdra ac roedd rhai ohonynt yn methu gweithio o ganlyniad i'w hanafiadau corfforol a meddyliol. Nid oedd gwladwriaeth les ar y pryd ac roedd llawer o gyn-filwyr a'u teuluoedd, yn ogystal â theuluoedd y rhai a laddwyd yn y rhyfel, mewn sefyllfa o dlodi a newyn.

Nod y Lleng Brydeinig Frenhinol oedd helpu i ddarparu ar gyfer yr 20 miliwn o bobl oedd yn gymwys i dderbyn ei chefnogaeth. Roedd sylfaenwyr y Lleng yn credu mai pwrpas y sefydliad newydd oedd nid yn unig edrych ar ôl y rhai oedd wedi dioddef o ganlyniad i'r rhyfel diwethaf, ond hefyd rhoi diwedd ar yr aberth drwy atgoffa'r genedl am gost y rhyfel i'r hil ddynol ac i weithio'n frwd i gadw heddwch.

Gofalu am deuluoedd

Bob dydd mae'r Lleng yn cynnal gweithgareddau sy'n helpu cyn-filwyr o bob oedran a'u teuluoedd. Ym 2010 addawodd filiynau o bunnoedd ar gyfer canolfannau arbenigol i helpu dynion a merched o'r lluoedd arfog oedd wedi eu niweidio ac yn dychwelyd o Afghanistan. Mae'r Lleng hefyd yn: rhedeg cartrefi gofal i gyn-filwyr oedrannus a'u teuluoedd, darparu gwyliau byr i 4,500 o bobl, dyfarnu grantiau brys, ateb 300,000 galwad ffôn bob blwyddyn sy'n gofyn am help, cynrychioli 3,500 o bensiynwyr mewn tribiwnlysoedd, helpu bron i 3,000 o bobl i ddarganfod gwaith a chyd-drefnu 200,000 o ymweliadau â milwyr a chyn-filwyr mewn ysbytai.

RY Lleng Brydeinig Frenhinol

Nid yw'r Lleng yn gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ond mae'n ymgyrchu'n weithredol ar faterion sy'n effeithio ar ddynion a merched y lluoedd arfog a chyn-filwyr megis y rhai sy'n dioddef o ganlyniad i Syndrom Rhyfel y Gwlff neu effeithiau profion niwclear.

Bob mis Tachwedd, mae'r Lleng yn parhau i ddosbarthu pabïau a threfnu digwyddiadau a gwasanaethau Diwrnod y Cofio. Drwy ei gwaith lles hanfodol mae'n parhau i gefnogi'r rhai sydd fwyaf angen cymorth ac yn cyfleu pwysigrwydd Coffadwriaeth i bawb, yn wleidyddion ac yn blant ysgol, gan eu hatgoffa o gost rhyfel a pham y dylem gofio'r rhai sy'n dioddef o ganlyniad i ryfel.

The Exhortation

They shall grow not old,
as we that are left grow old:
Age shall not weary them,
nor the years condemn.
At the going down of the sun
and in the morning
We will remember them.

O 'For the Fallen'
gan Laurence Binyon